

Ymadael â'r UE – Yr Wybodaeth Ddiweddaraf ar Ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Môr a Physgodfeydd ar gyfer Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Môr Cymru (WMFAG) – Chwefror 2019

Am gryn dipyn o amser, mae swyddogion ledled y DU wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd ar y rhaglen ddeddfwriaethol fwyaf erioed i ddiwygio'r Acquis Ewropeaidd i baratoi ar gyfer ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r rhaglen hon yn enfawr, sydd wedi golygu defnyddio tipyn o adnoddau cyfreithiol.

Am sawl rheswm, yn enwedig o ystyried yr amser sydd ar gael, penderfynwyd trosglwyddo pob darn o ddeddfwriaeth Ewrop i lyfr statud y DU ar yr adeg y bydd y DU yn ymadael â'r UE i sicrhau bod y trefniadau deddfwriaethol yn parhau, ac yna adolygu'r sefyllfa yn nes ymlaen. Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 sy'n rhoi effaith i hyn.

Fodd bynnag, ni fyddai'r ddeddfwriaeth hon yn gweithio'n gywir heb gael ei ddiwygio'n helaeth. Mae hyn yn dipyn o dasg. Mae'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin ar ei ben ei hunan yn cynnwys tua 100 o reoliadau'r UE ac mae'r Rheoliad Rheoli ar ei ben ei hunan yn cynnwys 800 o gyfeiriadau unigol sydd angen eu diwygio (hy Cyfeiriadau i Aelod-wladwriaethau, y Cyngor, y Comisiwn etc). Roedd angen gwneud penderfyniadau hefyd i sicrhau bod yr OSau diwygio hyn yn ystyried y trefniadau datganoli a bod y swyddogaethau yn cael eu trosglwyddo i'r Llywodraeth briodol.

O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o swyddogaethau yn cael eu diwygio fel eu bod yn arferadwy gan y gweinyddiaethau pysgodfeydd perthnasol.

Rydym hefyd wedi gorfod gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth Cymru a'r DU lle y cyfeirir at ddeddfwriaeth Ewropeaidd.

Ar hyn o bryd, mae saith OS y DU yn cael eu paratoi, ac er mwyn paratoi ar gyfer yr ymadawiad posibl ar 28 Mawrth, rydym wrthi'n gosod yr Offerynnau Statudol ac maent yn cael eu hystyried yn unol â'r broses graffu ddeddfwriaethol briodol.

Dylid cofio **nad yw'r Ddeddfwriaeth hon yn gallu gwneud newidiadau polisi i reoliadau'r UE.** Mae angen deddfwriaeth sylfaenol i wneud hynny. O ganlyniad, mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno Bil Pysgodfeydd y DU i wneud y diwygiadau angenrheidiol i'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin ac i ddarparu sail ddeddfwriaethol ar gyfer rheoli pysgodfeydd ledled y DU fel y bo'n briodol.

Fodd bynnag, o gofio'r posibilrwydd na fydd Bil Pysgodfeydd y DU mewn grym erbyn y dyddiad ymadael, rydym yn gweithio ar ddau OS wrth gefn mewn perthynas â Mynediad a Thrwyddedu. Byddwn yn cysylltu ymhellach â'r WMFAG ar y mater hwn.

Y Bil Pysgodfeydd

Beth sydd yn y Bil?

Mae'r Bil yn darparu ar gyfer:

- amcanion polisi mewn perthynas â physgodfeydd, pysgota a dyframaethu;
- mynediad i bysgodfeydd Prydain;
- trwyddedu cychod pysgota;
- pennu a dosbarthu cyfleoedd pysgota;
- creu cynlluniau ar gyfer codi tâl am ddal pysgod môr heb yr awdurdod i wneud hynny;
- grantiau ar gyfer pysgota, dyframaethu neu warchod y môr;
- adennill costau sy'n gysylltiedig ag arfer swyddogaethau cyhoeddus sy'n ymwneud â physgod neu bysgota;
- rhoi pwerau i wneud darpariaethau pellach mewn cysylltiad â physgodfeydd, dyframaethu neu anifeiliaid y dŵr;
- gwneud darpariaeth ar gyfer is-ddeddfau a gorchmynion mewn perthynas â defnyddio pysgodfeydd môr; ac at ddibenion cysylltiedig.

Noddir y Bil gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Ar gais Llywodraeth Cymru, mae'r Bil hefyd yn cynnwys pwerau ar gyfer Gweinidogion Cymru.

Mae'r Bil yn nodi elfennau allweddol Fframwaith y DU ar gyfer rheoli a chefnogi Pysgodfeydd, gan gynnwys darparu Datganiad Pysgodfeydd ar y Cyd ac amcanion a rennir ar gyfer pysgodfeydd y DU, a chydgrynhoi'r gyfundrefn ar gyfer trwyddedu cychod pysgota mewn ffordd sy'n parchu natur ddatganoledig y mater dan sylw. Mae'r Bil yn golygu na fydd cychod pysgota'r UE yn gallu rhannu mynediad i ddyfroedd y DU. Bydd mynediad yn cael ei drafod yn y dyfodol, a bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn pennu cyfleoedd pysgota'r DU yn gyffredinol ar sail canlyniad cytundebau rhyngwladol. Mae'r Bil hefyd yn ymdrin â nifer o ddiwygiadau domestig Seisnig o ran gwerthu cwotâu, codi prisiau a'r rhwymedigaeth lanio.

Ar ba gam y mae'r Bil bellach?

Cafodd Bil Pysgodfeydd y DU ei gyflwyno gerbron Senedd y DU ar 25 Hydref 2018. Pasiodd y Bil ei ail ddarlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin ar 21 Tachwedd 2018, a chafodd ei ystyried gan y Pwyllgor rhwng 4 Rhagfyr a 17 Rhagfyr pan wnaed sawl gwelliant iddo. Y cam nesaf yw cyfnod adrodd Tŷ'r Cyffredin a'r trydydd darlleniad ac yna bydd yn cael ei ystyried gan yr Arglwyddi. Nid oes dyddiad wedi'i bennu ar gyfer y camau nesaf ar adeg ysgrifennu'r darn hwn. Gallwch ddilyn hynt y Bil drwy Senedd y DU yma:

<https://services.parliament.uk/Bills/2017-19/fisheries.html>

Safbwynt Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU ar y Bil, wrth iddo symud yn ei flaen.

Rydym eisoes wedi gweithio'n llwyddiannus gyda Llywodraeth y DU i newid y Bil rywfaint ers iddo gael ei gyflwyno. Mae wedi cael ei ddiwygio i ganiatáu ar gyfer ymestyn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â materion pysgodfeydd ym mharth Cymru y tu hwnt i Gymru (cymal 39), ac mae hefyd yn cynnwys darpariaethau ar reoli

pysgodfeydd mewn perthynas â chadwraeth forol, pwerau creu grantiau a phwerau i wneud rheoliadau sy'n diwygio deddfau at ddibenion amrywiol.

Mae diwygiadau pellach i'r Bil yn cael eu trafod gyda Llywodraeth y DU, gan gynnwys:

- Mae Llywodraeth Cymru am weld diwygiadau i Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 ("Deddf 2009") yn cael eu cynnwys yn y Bil er mwyn caniatáu i Weinidogion Cymru amrywio o bryd i'w gilydd yr amodau sy'n gysylltiedig ag unrhyw drwyddedau pysgota a roddir gan Weinidogion Cymru yn unol â Deddf 2009. Bydd hynny'n caniatáu i Weinidogion Cymru reoli pysgodfeydd Cymru mewn ffordd llawer mwy hyblyg ac ymatebol.
- Rydym hefyd am weld diwygiad i'r pŵer i wneud gorchymyn interim a nodir yn adran 136 o Ddeddf 2009 a fyddai'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud gorchmynion interim at ddibenion rheoli pysgodfeydd mewn sefyllfaoedd ac eithrio sefyllfaoedd nad ydynt ond yn gysylltiedig â gwarchod Parth Cadwraeth Forol (neu barth a all gael ei ddynodi'n Barth Cadwraeth Forol). Byddai'r Gorchmynion hyn, na fyddai angen gweithdrefn ar eu cyfer, yn caniatáu i Weinidogion Cymru weithredu'n gyflym ac ymateb er mwyn atal difrod i'n hamgylchedd morol wrth i fesurau mwy priodol gael eu datblygu yn y ffordd arferol. Bydd mwy o angen i weithredu'n gyflym fel hyn unwaith y byddwn wedi ymadael â'r Undeb Ewropeaidd ac unwaith na fydd y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin yn gymwys bellach yn nyfroedd Cymru.

Craffu gan y Cynulliad Cenedlaethol

Yn unol â gweithdrefnau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad), pan fo Bil yn effeithio ar gymhwyster datganoledig, rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol. Gosodwyd Memorandwm ar gyfer Bil Pysgodfeydd y DU ar 15 Tachwedd. Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ar 10 Ionawr. Cewch eu gweld yma:

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

<http://www.assembly.wales/laid%20documents/lcm-ld11847/lcm-ld11847-w.pdf>

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol:

<http://www.assembly.wales/laid%20documents/lcm-ld12027/lcm-ld12027-w.pdf>

Mae'r Cynulliad ar hyn o bryd yn craffu ar Fil Pysgodfeydd y DU, a chewch hyd i wybodaeth ar y broses hon yma:

<http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgConsultationDisplay.aspx?id=334&RPID=1014111060&cp=yes>

Bydd yn ofynnol i'r Cynulliad gydsynio i'r Bil gael ei wneud, mewn perthynas â meysydd sy'n effeithio ar gymhwyster datganoledig Cymru.

Am wybod mwy?

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y Bil, cysylltwch â Tamsin Brown, Rheolwr Bil Pysgodfeydd y DU - Llywodraeth Cymru.

E-bost: tamsin.brown@gov.wales

Ffôn: 03000 253225